

**Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Eryri:**  
**Pwyntiau Gweithredu sy'n deillio o Sesiwn Gwrandawriad 3**

**Pwynt Gweithredu 11: Eglurhad Awyr Dywyll**

**Darparu rhagor o wybodaeth am y broses o adolygu'r Dynodiad Awyr Dywyll ac amserlenni**

Mae'n rhaid i Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol (IDSR) gyflwyno adroddiad blynyddol i'r IDA (Cymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol) erbyn 1 Hydref bob blwyddyn sy'n manylu ar weithgareddau a chynnydd tuag at gyflawni nodau IDA IDSR yn ystod y flwyddyn flaenorol. Diben yr adroddiad yw nodi bod y Warchodfa yn parhau i gwrdd â gofynion sylfaenol y rhaglen: yn cynnal ymdrechion partneriaeth, allgymorth a dehongli: ac yn gwneud cynnydd digonol tuag at gydymffurfio o leiaf 90% â Chynlluniau Rheoli Goleuadau.

Nid oes proses nac angen i ail-ymgeisio am statws Awyr Dywyll, mae'r dynodiad yn barhaol (ar yr amod nad oes dirywiad parhaus yn digwydd i'r dynodiad)

**Pwynt Gweithredu 12: Clustogi Ardaloedd Diogelu Mwynau Categori 1**

**Rhoi esboniad sy'n ymwneud â'r gwaith a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch clustogi ardaloedd diogelu mwynau Categori 1 o amgylch aneddiadau**

Yn y ddogfen sy'n dwyn y teitl 'Aggregates Safeguarding Maps of Wales' (Map Diogelu Agregau Cymru) gan Arolwg Daearegol Prydain, o dan 'Stage 3: Application of a safeguarding margin to the aggregate resource dataset', mae'n nodi (i ddyfynnu)

*"PPW recognises the conflict between mineral workings and other land uses due to noise, dust and vibration, suggesting 'buffer zones' as an option around permitted and proposed mineral workings. In this zone, development proposals should be resisted for both extraction and sensitive development in order to reduce conflicts of land use."*

Nid yw'r Awdurdod wedi rhoi clustogfeydd o amgylch yr adnoddau craig galed na'r adnoddau tywod a graean. Mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r haenau GIS a ddarparwyd gan Gymdeithas Ddaearegol Prydain fel y cyfeiriwyd atynt yn llythyr y Prif Swyddogion Cynllunio dyddiedig 14 Tachwedd 2012.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gosod clustogfeydd o amgylch yr aneddiadau presennol yn y Parc Cenedlaethol, ac er nad yw hyn yn ofyniad gan Bolisi Cenedlaethol mae'r Awdurdod o'r farn ei fod yn synhwyrol gwneud hynny oherwydd na chaniateir gwaith mwynau o fewn 200m o aneddiadau sy'n bodoli'n barod. Mae'r BGS wedi gosod clustogfeydd o amgylch rhai o brif aneddiadau'r Parciau Cenedlaethol.

Felly, nid yw APCE wedi clustogi o amgylch y gwarchodfeydd, a'r unig glustogfeydd a wnaed yw'r rhai o amgylch yr aneddiadau.

**Pwynt Gweithredu 13: Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.**

**Mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried a lleisio barn ar y ddau faen prawf a gynigiwyd gan CNC yn ei Ddatganiad sy'n ymwneud â nodweddion tirwedd nodweddiadol ac integreiddio datblygiadau sy'n bodoli'n barod.**

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y ddau faen prawf a gynigiwyd gan CNC yn ei Ddatganiad Gwrandawriad sy'n ymwneud â nodweddion tirwedd nodweddiadol ac integreiddio datblygiadau sy'n bodoli'n barod. Fodd bynnag, fe ddaethpwyd i'r casgliad ei fod yn ddiangen cynnwys y maen prawf arfaethedig cyntaf gan fod polisïau eraill yn y CDLI yn canolbwyntio ar welliannau, megis;

- Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy
- Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- Polisi Strategol Ch: Isadeiledd Cymdeithasol a Ffisegol mewn Datblygiadau Newydd
- Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
- Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena
- Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant

Felly, ystyrir y byddai cynnwys datganiad pellach ynglŷn â gwelliannau o fewn Polisi Datblygu 2 yn ddiangen. Gyda golwg ar yr ail faen prawf arfaethedig sy'n ymwneud â datblygiadau sy'n bodoli'n barod, ystyrir ei fod yn amhriodol cynnwys hwn fel maen prawf, gan nad yw o fewn gallu'r Awdurdod i orfodi bod datblygiadau sy'n bodoli'n barod yn cael eu hintegreiddio i mewn i'r Dirwedd. Serch hynny, gall yr Awdurdod ddylanwadu ar geisiadau cynllunio newydd ynglŷn â datblygiadau presennol a nodweddion tirwedd nodweddiadol er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol ar y dirwedd trwy bolisïau'r CDLI, fel y gwelir ym Mholisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog. Felly, mae'r Awdurdod yn credu nad oes angen geiriad ychwanegol ym Mholisi Datblygu 2 o ran nodweddion tirwedd nodweddiadol ac integreiddio datblygiadau sy'n bodoli'n barod.

#### **Pwynt Gweithredu 14:**

##### **Croeswrio am unrhyw effaith ganlyniadol ar unrhyw un o'r NMG.**

Nid oes unrhyw effaith ganlyniadol ar rannau eraill o'r cynllun o'r NMG a gynigir ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 3.